County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

# AGENDA

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC |
| **Dyddiad ac amser y cyfarfod** | DYDD LLUN, 16 IONAWR 2023, 5.00 PM |
| **Lleoliad** | YB 4, NEUADD Y SIR, CYFARFOD AML-LEOLIAD |
| **Aelodaeth** | Cynghorydd Lee Bridgeman (Cadeirydd)<br>Cynghorywr Boes, Davies, Ferguson-Thorne, Hopkins, Joyce, Melbourne, Simmons a/ac Singh<br><br>Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru), Bridgid Corr (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) a/ac Celeste Lewis (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) |

*Tua Amser.*

**1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2 Datgan Buddiannau**

I'w wneud ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

**3 Cofnodion** *(Tudalennau 5 - 20)*

Cymeradwyo fel cofnod cywir cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar:

- 19 Hydref 2022
- 14 Tachwedd 2022
- 13 Rhagfyr 2022 (i ddilyn)

**4 Strategaeth Gwasanaethau Plant** *(Tudalennau 21 - 152)* 5.05 pm

Ymgymryd â chraffu cyn penderfynu mewn perthynas â'r Strategaeth Gwasanaethau Plant sy'n cwmpasu'r amserlen 2023-26. Mae'r Strategaeth yn ymdrin â chynnydd hyd yma yn ogystal â sut y bydd y cyngor a'i bartneriaid yn cyrraedd eu prif nodau mewn tri maes ffocws allweddol - pobl, lleoedd ac ymarfer.

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Canllaw Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru: Fframwaith ar gyfer Gwella Ysgolion** *(Tudalennau 153 - 182)* | 5.50 pm |

Derbyn cyflwyniad gan Gonsortiwm Addysg Canolbarth y De ar ganllawiau Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Bydd hyn yn cynnwys trosolwg o'r pwrpas a'r disgwyliadau sy'n codi o'r canllawiau newydd; crynodeb o newidiadau a goblygiadau; ac atebolrwydd dros ysgolion, y cyngor a'r Consortiwm.

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion - Adroddiad Blynyddol ar Fuddsoddi yn yr Ystâd Addysg** *(Tudalennau 183 - 246)* | 6.20 pm |

Cynnal craffu cyn penderfyniad ar Adroddiad Blynyddol CTY, sy'n diweddaru Aelodau ar gynnydd yn erbyn Trefniadaeth Ysgolion y cytunwyd arni a blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf a gwariant; cynnydd a wnaed a gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; nodi unrhyw newidiadau nodedig posibl yn seiliedig ar gyfleoedd/risgiau/materion yn cyflwyno a allai effeithio ar y rhaglen yn y tymor byr, canolig, hirdymor; a chadarnhau cynlluniau (gan gynnwys cynigion a phrosiectau) ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae Atodiadau 3 a 4 i ddilyn

**7 Adroddiadau Briffio** *(Tudalennau 247 - 300)*

Aelodau i dderbyn diweddariad ysgrifenedig mewn perthynas â'r canlynol:

Perfformiad Chwarter 2 y Gwasanaethau Plant 2022-2023
Gofal Plant Digonol

**8 Eitemau Brys (os oes rhai)**

**9 Y Ffordd Ymlaen** 6.50 pm

Adolygu'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd wrth ystyried pob eitem a chytuno ar sylwadau, arsylwadau a phryderon yr Aelodau i'w trosglwyddo i'r Aelod Cabinet perthnasol gan y Cadeirydd.

**10 Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Mae dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w gadarnhau.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr, Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2023
Cyswllt: Mandy Farnham, Mandy.Farnham@cardiff.gov.uk,
02920 872618, Mandy.Farnham@caerdydd.gov.uk

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Gall aelodau'r cyhoedd hefyd ffilmio neu recordio'r cyfarfod hwn

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd